



Amcanion a Datganiad Llesiant 2017



monmouthshire
sir fynwy


Rheoli Fersiynau


Teitl	Amcanion Llesiant 2017-18
Diben	<p>Mae'r cynllun hwn yn amlinellu cyfrifoldeb y cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gynnal datblygiad cynaliadwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I osod a chyhoeddi amcanion llesiant • I gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny • I gyhoeddi datganiad am amcanion llesiant • I ddarparu manylion o'r trefniadau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd <p>Mae'r cynllun hwn yn amlinellu cyfrifoldeb y cyngor i gyhoeddi ei Amcanion Gwelliant yn unol â'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel yr amlinellir yn adran 15(7) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae'n dangos sut mae'r cyngor yn cyflwyno'r 7 agwedd o welliant.</p>
Perchennog	Cyngor Sir Fynwy
Cymeradwywyd gan	Y Cyngor
Dyddiad	20 Mawrth 2017
Rhif y Fersiwn	1.0
Statws	Cymeradwywyd
Amllder Adolygu	Bob blwyddyn neu'n fwy aml os daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n ei wneud yn ofynnol adolygu un neu ragor o'r amcanion llesiant
Dyddiad adolygu nesaf	Mawrth 2018
Ymgynghori	Hysbyswyd gan yr Asesiad Llesiant a gynhaliodd ymarfer ymrwymiad cyhoeddus helaeth "Ein Sir Fynwy".

Os hoffech wneud sylw ar amcanion llesiant y Cyngor neu roi'ch meddyliau ar y materion yr ydych yn teimlo y dylid eu hystyried fel rhan o ymagwedd y Cyngor at lesiant, cysylltwch â ni.

 improvement@monmouthshire.gov.uk

 <http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cynllun-gwella>

 Matthew Gatehouse, Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

 01633 644397

 @MonmouthshireCC

Gweledigaeth ar gyfer Sir Fynwy

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd siâp gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn newid yn sylweddol. Bydd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn bod gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl mwy am yr hir dymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, yn ceisio datrys problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg ac yn cymryd ymagwedd fwy cydlynol.

Mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn newid sut rydym yn cynllunio, gan ein hannog i edrych ymlaen at y dyfodol mewn cyfnodau o ddeng mlynedd, hyd yn oed 25 mlynedd mewn rhai sefyllfaoedd. Golyga toriadau i gyllidebau, mwy o alw a disgwyliadau uwch gan y cyhoedd ein bod yn methu â pharhau i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio'r un ymagwedd. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych i'r dyfodol ac yn adnabod dulliau newydd o bethau rydym wedi bod yn eu gwneud yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae rhaglen Sir Fynwy y Dyfodol wedi cael ei dylunio i alinio gydag egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwaith yn edrych ar gydbwysu'r anghenion tymor byr i roi lle i'n hunain feddwl er mwyn datrys rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu ein sir.

Roedd gofyn bod gennym Amcanion Llesiant yn eu lle erbyn 31 Mawrth 2017. Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, byddwn yn gweithio gyda'r cynghorwyr y'u hetholir i ddatblygu ymhellach y camau gweithredu a'r mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r amcanion llesiant. Bydd yr amcanion yn cael eu cyflwyno i'r cyngor newydd am gymeradwyaeth. Ar yr adeg honno, bydd gan gynghorwyr y cyfle i ailedrych ar yr amcanion ac adnabod y prosiectau a fydd yn helpu eu cyflawni.


Cyn i ni osod ein hamcanion llesiant, roedd angen i ni gael dealltwriaeth well o Sir Fynwy, pobl y sir ac amgylchedd y sir. Mae [Aseiad Llesiant](#) y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ein darparu â dealltwriaeth dda o asedau Sir Fynwy a'r heriau a'r cyfleoedd rydym wedi eu cymryd i ystyriaeth ochr yn ochr â strategaethau, polisiâu a deddfwriaeth cyfredol wrth ddatblygu ein hamcanion. Roedd hyn yn ddefnyddiol wrth ein helpu i gadarnhau ein diben a gosod gweledigaeth glir ar gyfer y sir.

Rydym eisiau galluogi adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r weledigaeth hon yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy. Byddwn yn ystyried datblygiad cynaliadwy mewn perthynas â sut rydym yn cynllunio a datblygu ein hamcanion llesiant, gan gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol Cymru. .

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn ein bod yn cynnal datblygiad cynaliadwy, dylai hyn sicrhau bod anghenion cyfredol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau. Wrth gyflawni datblygiad cynaliadwy, rhaid i ni gyhoeddi amcanion llesiant gyda'r nod o uchafu ein cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant a chymryd yr holl gamau rhesymol i fodloni'r amcanion. Fe ddangosir y saith nod llesiant yn y diagram isod.



Wrth gynllunio ein gwasanaethau a chymryd camau i fodloni ein hamcanion llesiant, rhaid i ni ystyried yr egwyddorion llywodraethiant cynaliadwy canlynol, a dangos ein bod wedi eu hystyried wrth wneud penderfyniadau:

- Cydbwysu anghenion tymor byr gydag anghenion hir dymor.
- Defnyddio ymagwedd integredig, gan gydbwysu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Cynnwys eraill a gwrando ar eu barn.
- Gweithio ar y cyd ag eraill.
- Rhoi adnoddau i mewn i atal problemau

Mae pob penderfyniad cyfredol a wneir gan y Cyngor a'i gabinet yn cael eu hasesu gan ddefnyddio Gwerthusiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n sicrhau bod cydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy yn cael eu hystyried yn llawn yn y penderfyniadau a wnawn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus dynodedig i weithredu ar y cyd fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Pedwar aelod statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae sefydliadau eraill hefyd yn cael eu gwahodd, yn Sir Fynwy mae hynny'n cynnwys Heddlu Gwent, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Tai Melin a mudiadau gwirfoddol trwy gynrychiolaeth Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent.

Asesiad Llesiant

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi cynhyrchu ei Asesiad Llesiant ar gyfer y sir. Bydd hyn yn helpu llunio dyfodol yr ardal a'i chymunedau. Mae'r asesiad yn tynnu ynghyd canfyddiadau o ddata, ymchwil academiaidd a phapurau polisi a barn pobl leol. Mae'n cynnwys gwahanol adrannau ac yn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy gyfan.


Mae hefyd yn darparu proffiliau o ardaloedd mwy lleol wedi'u clystyru'n fras o amgylch ein pum tref fwyaf: Y Fenni; Trefynwy; Brynbuga; Cas-gwent a Chil-y-Coed. Mae adran ar duddiadau'r dyfodol ac adran casgliadau sy'n tynnu allan rhai o'r prif negeseuon y bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio i hysbysu amcanion llesiant y Cyngor. Gallwch lawrlwytho copi o'r asesiad yn www.monmouthshire.gov.uk/our-monmouthshire

Yr Amcanion Llesiant

Mae'r amcanion llesiant yr ydym wedi eu gosod yn dod â'r dystiolaeth, polisi a deddfwriaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghyd i ddangos sut byddwn yn cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodloni anghenion cyfredol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau.

Bydd camau gweithredu penodol i gyflwyno'r amcanion a'r metrig i werthuso cynnydd yn cael eu datblygu ymhellach ac yn cael eu cynnwys yn yr amcanion yn dilyn etholiadau mis Mai 2017.

Mae nifer o'r ardaloedd ym mhob amcan yn gysylltiedig ac mae'n hanfodol integreiddio'r gweithgaredd i gyflwyno pob amcan er mwyn uchafu eu heffaith.



Bydd y gweithgareddau'n mynd i'r afael â heriau hir dymor ar lefel gymunedol yn hytrach na rhai o'r materion a chanlyniadau yn ymwneud â'r broses fewnol y gellid dod o hyd iddynt weithiau yng Nghynllun Gwelliant blynyddol y Cyngor. Bydd yn cymryd mwy o amser i weld tystiolaeth o newid mesuradwy, er byddwn yn parhau i osod cerrig milltir y gellid eu defnyddio i olrhain ein taith o welliant.

Cyfrannu at nodau llesiant

Mae'r tabl yn dangos sut mae pob un o'r pedwar o'r amcanion llesiant yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r lliwiau trwm yn dynodi cyfraniad uniongyrchol at gyflawni'r nod ac mae lliwiau golau'n dynodi cyfraniad llai uniongyrchol. Mae o leiaf dau o'r amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at bob nod.

Amcanion Llesiant	Cyfraniad yr Amcanion Llesiant at y Nodau Llesiant						
	Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Darparu'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc i'w helpu i gyflawni gwell canlyniadau							
Uchafu'r potensial yn ein cymunedau i wella llesiant ar gyfer pobl trwy gydol eu bywyd							
Uchafu buddion yr awyrgylch naturiol ac adeiledig er llesiant cenedlaethau cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol							
Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau sicrhau sir sy'n ffynnu ac sydd â chysylltiadau da							

Adborth

Mae gennym ddiddordeb gwybod beth rydych chi'n meddwl am ein gwasanaethau a'n hamcanion llesiant yr ydym wedi ysgrifennu amdanynt yn y cynllun hwn. Gallwch gwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd i ni ar e-bost neu drwy'r post. Fodd bynnag, mae diddordeb gennym mewn unrhyw farn, sut bynnag yr hoffech ei ddarparu. Mae manylion ar sut i gysylltu â ni ar waelod y dudalen.

1. A ydych chi'n cytuno bod yr amcanion llesiant wedi adnabod yr ardaloedd cywir i ni ganolbwyntio arnynt?


	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Sylwadau
Amcan llesiant 1				
Amcan llesiant 2				
Amcan llesiant 3				
Amcan llesiant 4				

2. A oes unrhyw beth arall yr ydych yn credu dylai fod yn amcan llesiant yn y dyfodol? Dywedwch wrthym yma.

3. Mae gennym ddiddordeb gwybod beth roeddech yn credu am ein cynllun. Rhowch wybod i ni:

	Oedd	Nac oedd	Sylwadau
A oedd yn hawdd ei deall?			
A oedd y cynnwys yn ddefnyddiol?			

 improvement@monmouthshire.gov.uk

 Matthew Gatehouse, Rheolwr Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

 @MonmouthshireCC